

## ATODLEN 1

### SAFONAU YCHWANEGOL CYFLWR AMAETHYDDOL AC AMGYLCHEDDOL DA SY'N GYMWYS MEWN PERTHYNAS Â THIR SYDD WEDI'I NEILLTUO ODDI WRTH WAITH CYNHYRCHU

## RHAN B

Safonau cyffredinol sy'n gymwys i bob darn o dir  
sydd wedi'i neilltuo oddi wrth waith cynhyrchu

#### **Taenu gwrtaith, gwastraff, calch a gypswm ar y tir sydd wedi'i neilltuo oddi wrth waith cynhyrchu**

**15.—**(1) Rhaid i ffermwr beidio â thaenu unrhyw wrtaith, gwastraff, calch na gypswm ar y tir sydd wedi'i neilltuo oddi wrth waith cynhyrchu ac eithrio yn unol â'r is-baragraffau canlynol.

(2) Caiff ffermwr daenu gwrteithiau ar y tir sydd wedi'i neilltuo oddi wrth waith cynhyrchu os yw'n bodloni'r Cynulliad Cenedlaethol cyn eu taenu fod y tir wedi'i leoli mewn ardal y mae'n hysbys ei fod yn cael ei defnyddio fel ardal ar gyfer bwyta gan wyddau yn y gaeaf a'i fod i'w reoli fel ardal o'r fath.

(3) Drwy gydol y cyfnod neilltuo, caiff ffermwr daenu gwastraff organig ar y tir sydd wedi'i neilltuo oddi wrth waith cynhyrchu ar yr amod —

- (a) nad yw'n cael ei daenu ond ar fannau lle mae gorchudd glas yn bodoli eisoes ar y neilltir;
- (b) ei fod yn cael ei daenu fesul dogn na fyddai'n difa'r gorchudd glas hwnnw; ac
- (c) yn achos tail a slyri, nad ydynt yn cael eu taenu —
  - (i) o fewn 10 metr i unrhyw gwrs dŵ r; na
  - (ii) o fewn 50 metr i unrhyw dyllau turio.

(4) Rhaid i ffermwr beidio â storio na dadlwytho na gwaredu fel arall unrhyw wastraff ar y tir sydd wedi'i neilltuo oddi wrth waith cynhyrchu, ac eithrio ei fod yn cael storio gwastraff organig mewn cae sy'n cynnwys neu'n ffurfio rhan o'r neilltir lle mae'r gwastraff organig hwnnw i'w daenu ganddo ar y cae hwnnw yn unol ag is-baragraff (3).

(5) Caiff ffermwr daenu gwrtaith yn ystod y flwyddyn gyfredol ar unrhyw barsel o dir amaethyddol sy'n cael ei reoli yn unol â pharagraff 4 lle bo gorchudd glas newydd yn cael ei sefydlu yn y flwyddyn honno, ar yr amod nad yw cyfanswm y nitrogen yn y gwrtaith hwnnw yn fwy na 30 cilogram yr hectar o dir y mae'n cael ei daenu arno.

(6) Caiff ffermwr daenu calch neu gypswm ar y tir sydd wedi'i neilltuo oddi wrth waith cynhyrchu pan fo cynydau i'w tyfu ar y tir hwnnw yn y flwyddyn ganlynol.